# Y Goron 2015 Beirniadaethau Unigol

**Brâd - Awenasa**

Rhaid canmol gwreiddioldeb y gwaith hwn er nad oeddwn yn teimlo bod yr awdur yn gwbl lwyddiannus wrth gyflwyno stori'r Awendel - cymuned o dylwyth teg- a gwrthryfel y prif gymeriad, Loti yn erbyn confensiynau ei byd. Roeddwn yn hoff o'r map a'r llun ar gychwyn y stori ac efallai roedd angen nofel yn hytrach na stori fer er mwyn cael y cyfle i ymdrochi'n llwyr yn y byd arallfydol a gwerthfawrogi'r elfen alegoriol sy'n cael ei hawgrymu gan y ddyfyniad cychwynnol o eiddo Malala Yousafzai.

**Dwedwch Fawrion o Wybodaeth - Brialluwallt**

Hoffais yr hiwmor a geir yn yr atgofion yn y stori deimladwy hon a rhaid canmol gallu Brialluwallt i ymdrin yn effeithiol â phwnc mor sensitif â marwolaeth cyfaill agos. Byddai awdur llai dawnus wedi creu naws fwy prudd, a dwys-ddramatig, tra bod hon yn stori ddynol a naturiol. Mae yma allu arbennig i greu deialog naturiol ac mae'r cymeriadau yn rhai credadwy a hoffus. Ceir yma ymgais dda hefyd i greu tro yn y gynffon.

**Y Fenyw Arall - Cadfan**

Mae Cadfan yn arddangos dawn i greu deialog naturiol ac mae hon yn stori deimladwy a darllenadwy sy'n ymwneud â theimladau wyres yn sgil 'affêr' ei thadcu. Efallai nad yw'n ymdriniaeth wreiddiol iawn o'r thema, ac mae'r dweud yn anghynnil ar brydiau. Gadewch i'ch darllenwyr ddehongli'r sefyllfa, rydych chi wedi ei chreu mor gelfydd, drostyn nhw

eu hunain weithiau, yn hytrach nag esbonio gormod ar deimladau'r cymeriadau.

**Y Gwahoddiad / Drysau Caeedig / Dau - Celyn**

Dyma dair stori fer grefftus, deimladwy a wnaeth fy nghyfareddu yn sgil eu cynildeb. Mae'r straeon yn clymu'n gyfanwaith tynn wrth archwilio bywyd tri chwpwl gwahanol iawn sy'n ymgodymu ag effaith elfen drasig ar eu perthynas - salwch, trais ac anffrwythlondeb. Mae yna hyder tawel yn yr ysgrifennu, a'r arddull yn ddiwastraff. Mae gan yr awdur ifanc yma ddawn arbennig i adnabod a mynegi sefyllfaoedd sydd yn debygol o fod y tu hwnt i'w brofiad personol. Mae hynny'n arddangos dawn gwirioneddol ac yn gosod Celyn yn agos at frig y gystadleuaeth eleni.

**Bara Beunyddiol - Dewi**

Mae *Bara Beunyddiol* yn stori hynod ddarllenadwy sy'n ein tywys i fyd rhaglenni *Bake Off*-aidd wrth adrodd hanes chwerwfelys Dewi prif gymeriad credadwy a difyr, sy'n canfod cyfrinach a chariad tra'n coginio. Roeddwn yn hoff iawn o'r arddull hwyliog ac ymddangosiadol ddiymdrech a theimlaf fod yma ddeunydd nofel boblogaidd neu ffilm gampus ar gyfer y teledu yn hytrach na stori fer.

**Popo (Y Freuddwyd Aur) - Didion 1967**

Cydiodd gwaith Didion 1967 o'r frawddeg gyntaf a dyma lenor mwyaf crefftus y gystadleuaeth heb os. Hanes noson yn Aberystwyth a geir yma a ddarlunnir drwy gyfrwng portread afieithus, dychmygus a barddonol o hynt carfan o gymeriadau amrywiol a chofiadwy. Mae yna dinc Dylan Thomas-aidd a Llwyd Owen-aidd yma, yn sgil ansoddeiriau

cyfansawdd dyfeisgar, arddull lenyddol hunanymwybodol, ac awyrgylch cyfoes, meddwol, swrrealaidd. Fel y ceir yn aml yng ngwaith y ddau awdur hynny, ceir yma ymdriniaeth o hiraeth a cholled o fewn stori fywiog, aml haenog, a'r ysgrifennu drwyddi draw yn hudol. Mae gan Didion 1967 ddawn hefyd i greu deialog realistig ac i fynd o dan groen cymeriadau. Dyma gyfanwaith fwyaf llwyddiannus y gystadleuaeth sy'n cyflwyno ei stori gyfoes, ganolog mewn ffordd synhwyrus a ffres. Mae Didion 1967 yn awdur greddfol a soffistigedig ac edrychaf ymlaen at ddarllen rhagor o'i waith.

**Beth yw'r brâd? - Elin**

Ceir strwythur ddyfeisgar, ddeallus i'r darn uchelgeisiol hwn sy'n cylchdroi o gwmpas damwain ffordd a'r effaith ar griw o ffrindiau ond efallai bod y cynllun wedi mynd yn drech na'r stori? Mae angen datblygu'r cymeriadau yn well hefyd er mwyn i'r darllenydd fedru uniaethu a chydymdeimlo'n well â nhw, ond llwyddwyd i greu diweddglo ysgytwol. Mae hwn yn waith aeddfed sy'n dangos addewid pendant.

**Brâd - Fan'cw**

Stori wreiddiol am broblemau seicolegol myfyrwraig wedi ei chyflwyno'n grefftus ond efallai nad yw'r arddull hunanymwybodol yn taro deuddeg ar hyd y darn, a'r diweddglo braidd yn anghynnil yn wannach o lawer na'r agoriad trawiadol a ffraeth. Creadigaeth lwyddiannus dros ben yw Llio Melanie Jones fodd bynnag sy'n hawlio ein sylw o'r dechrau i'r diwedd ac yn arddangos dawn creadigol sicr Fan'cw. Dwi'n siwr y byddai'r awdur yn medru sgriptio chwip o ddrama deledu dywyll!

**Brâd - Heledd**

Mae gan Heledd glust dda am ddeialog, ac fe lwyddodd i gadw fy niddordeb wrth i ffrydiau'r naratif ddatblygu'n llif gafaelgar yn y stori hon am fywydau myfyrwraig, trempyn a dyn priod anffyddlon yn cyd-gyffwrdd. Ychydig yn rhy felodramatig mae'r stori ar y cyfan, ac ymdeimlad fod popeth yn dod at ei gilydd yn rhy daclus, ond mae'n ymgais dda i lunio gwaith o sawl safbwynt.

**Bradychu Cenedl/ Trwy Gil y Drws/ Yn Glaf ac yn Iach - Yr Hafod**

Mae yma deimladau ac emosiynau angerddol yn y darn cyntaf, sy'n cyflwyno barn ar ddirywiad yr iaith Gymraeg - er nad yw'n datblygu'n iawn ar ffurf stori. Mae angen gwylio rhag pregethu, a chreu plot a chymeriadau sy'n gwneud y gwaith hwnnw drostoch chi. Cafwyd mwy o ddawn disgrifiadol yn y ddau ddarn dilynol, y cyntaf yn ymdrin â phryder merch ifanc sy'n credu bod ei thad yn anffyddlon i'w mam, a'r ail yn cyflwyno priodas sy'n chwalu'n llythrennol, ond nid yw'r dweud yn wreiddiol iawn ac mae angen ceisio anelu at fwy o ffresni o ran yr ieithwedd a delweddau.

**Brâd - Lelog**

Dyma awdur aeddfed ei arddull a chynnil ei grefft sy'n llwyddo creu stori afaelgar a darllenadwy am berthynas anarferol a thrasig dau gymydog, Franses ac Eifion. Ceir ysgrifennu disgrifiadol effeithiol sy'n llifo'n ddi-ymdrech i greu naws arbennig. Mae'r diweddglo eto ychydig yn or-ddramatig - gyda ffrwyno ychydig ar y dychymyg, gallai hon fod wedi bod yn agos at frig y gystadleuaeth.

**Brâd - Mariana**

Mae chwedl Morwyn Llyn y Fan yn llechu yn nyfnderoedd stori iasoer Mariana ac mae'n llwyddo creu golygfeydd llawn awyrgylch. Mae angen gweithio ar lunio cymeriadau mwy crwn fodd bynnag, gan eu bod ychydig yn rhy un dimensiwn ac felly'n amharu ar allu'r darllenydd i uniaethu ac i boeni am yr hyn sy'n digwydd iddynt. Ond mae syniad canolog y darn yn un dychmygus a chofiadwy.

**Brâd - Merch**

Mae hon yn stori am golled ac effaith rhyfel gan awdur sensitif sy'n medru llunio delweddau trawiadol a chofiadwy. Mae angen tynhau cynllun y naratif er mwyn sicrhau bod y stori yn fwy darllenadwy, gan fod y neidio nôl ac ymlaen mewn amser a'r newid mewn persbectif yn gymysglyd ar brydiau. Mae yma dueddiad hefyd i or-bentyrru trosiadau a chyffelybiaethau gan feddwi'n ormodol ar eiriau ond mae'r cyfanwaith yn un cofiadwy sy'n llwyddo cyffwrdd y darllenydd.

**Brâd - Morgana**

Ceir sawl wedd ar y thema Brâd gan **Morgana**, gan ein harwain yn gelfydd drwy gyfnodau yn ein hanes cenedlaethol - oes ymosodiadau'r Sacsoniaid, cyfnod y Lancastriaid, Oes Fictoria a'n hoes ni. Roeddwn yn hoff iawn o'r gwaith hwn, a oedd yn cynnal syniad canolog yn effeithiol wrth blethu pedair stori ynghyd. Nid oedd safon yr ysgrifennu disgrifadol yn gyson ar hyd rhannau'r gwaith, ond roedd yr ergyd yn y rhan gyfoes yn arbennig. Dyma un o fy hoff ddarnau yn y gystadleuaeth ac rwy'n ffyddiog y bydd yr awdur hwn yn profi llwyddiant yn y dyfodol .

**Yr Hen Goleg - Neb**

Stori ddychanol a doniol, ond ychydig yn rhy agos at yr asgwrn efallai yw hon. Mae Neb yn awdur dawnus â gallu i drin geiriau yn effeithiol. Er i fi fwynhau'r cysyniad canolog o ysbrydion llenyddol yr Hen Goleg yn codi i ymateb i argyfwng ym Mhrifysgol Aberystwyth, gyda'r tinc hyfryd o naws *A Night at the Museum*, teimlais bod yna elfen ychydig yn ddi-chwaeth yn y stori er ei dyfeisgarwch.

**Brâd - Pedro**

Dyma ymgais fentrus, ddifyr gan awdur deallus sy'n cyflwyniad o waith creadigol hunanymwybodol ag iddo sylfaen theoretig llenyddol. Defnyddir Pedro, y prif gymeriad, i daflu goleuni ar y strwythurau sy'n creu a chynnal ei stori ei hun. Er fy mod yn croesawu natur uchelgeisiol y darnau a gyflwynwyd, a diben y gwaith wedi ei osod allan yn glir yn y cyflwyniad, rwy'n teimlo bod y gwaith yn or-gymhleth, a'r creadigrwydd wedi ei lethu gan y nod academaidd.

**Brâd - Pedwar a Chwech**

Mae gan **Pedwar a Chwech** ddawn arbennig i greu cymeriadau credadwy a deialog naturiol. Cariad ifanc yw testun ei stori fer, a'r naratif person cyntaf yn ein tynnu'n effeithiol i gyd-brofi'r cyffro a'r boen a ddaw yn ei sgil. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng myfyrdodau barddonol llais mewnol y prif gymeriad a'r iaith bob dydd a ddefnyddir

gyda'i gyfoedion ar lafar ac ar neges destun ynghyd â'r hiwmor hunanfychanol, yn creu stori grwn y cefais bleser mawr o'i darllen.  Dawn anghyffredin yw medru ysgrifennu mewn modd mor naturiol. Mae gan y stori galon ac enaid, a'i ffocws yn glir , ac yn llwyr haeddiannol o ddod mor agos at frig y gystadleuaeth hon.

**Gwaed a Dŵr  - Yr Ynys**

Prif gamp **Yr Ynys** yw creu cymeriadau credadwy yn y stori gignoeth a chyfoes hon am hanes criw o bobl ifanc, a phrofiad y prif gymeriad o effaith cariad, trais a cholled.  Ceir yma ysgrifennu hyderus ac aeddfed sy'n llwyddo'n ysgubol i gyfleu sut y gall bywyd bob dydd droi'n hunllef, a hynny heb or-ddramateiddio na gor-ysgrifennu. Mae'r darn yn bwrw goleuni ar gornel arbennig o'n cymdeithas - gan sicrhau gwedd newydd ar y storiau sy'n cael eu datgelu'n un dimensiwn yn ein papurau newydd yn feunyddiol. Dyma un o oreuon y gystadleuaeth o ran y gallu i fynd dan groen cymeriadau a'u cymdeithas.